# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Chwefror 2018

Amser: 15.05 - 16.58

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4508

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Naomi Alleyne, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Huw David, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Geraint Hopkins, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Anthony Barrett - Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Dave Thomas |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Rheoli meddyginiaethau: Trafod yr adroddiad drafft

1.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft. Yn sgil cyfyngiadau amser, cytunodd yr Aelodau i ddychwelyd at y mater hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor wythnos nesaf.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC ac Adam Price AC.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3.2 O ran y papurau a gafodd eu nodi, cytunwyd ar y camau penodol a ganlyn:

- Cynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr adolygiad o'r gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru rhwng Caerdydd ac Ynys Môn;
- Ysgrifennu at Gyfarwyddwr yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol yn gofyn am ragor o eglurder ynghylch y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru â gwasanaeth digidol Llywodraeth y DU;
- Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ynghylch elfennau codio'r rhaglen Hwb.

### 3.1 Y Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn: Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (30 Ionawr 2018)

### 3.2 Maes Awyr Caerdydd: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (2 Chwefror 2018)

### 3.3 Sesiwn gychwynnol: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (31 Ionawr 2018)

### 3.4 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (8 Chwefror 2018)

### 3.5 Arferion a gweithdrefnau gwaith y Pwyllgor: Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru

## 4 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Sesiwn dystiolaeth 6

4.1 Fel rhan o'u hymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan y Cynghorydd Huw David, Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr); y Cynghorydd Geraint Hopkins, Dirprwy Lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ac Aelod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf); a Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

4.2 Cytunodd y tystion i anfon gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â nifer o bwyntiau i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i ymchwiliad.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Diwygiwyd y cynnig i gynnwys Eitem 1 o'r cyfarfod a gynhelir ar 5 Mawrth 2018, a chytunwyd arno.

## 6 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.